# ANGHARAD EVANS
# CLWB PÊL-DROED IAU VIKINGS PONT-Y-CLUN

Mae Angharad yn cyfrannu at lwyddiant clwb Vikings Pont-y-clun mewn nifer o ffyrdd. Mae hi'n drysorydd, yn ysgrifennydd ac yn hyfforddwraig, yn ogystal â bod yn fam ac yn weithiwr cymdeithasol o ddydd i ddydd. O redeg y clwb i roi cymorth i bob plentyn sy'n cerdded drwy'r drws - mae Angharad yn rhan allweddol o bopeth y mae'r clwb yn ei wneud

Yn ddiweddar, mae hi hyd yn oed wedi dechrau clwb rhedeg i helpu'r chwaraewyr i wella eu ffitrwydd a meithrin eu hyder. Mae hi wir yn mynd gam ymhellach, gan sicrhau bod pob chwaraewr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei gefnogi. Yn ogystal â phrynu melysion, sticeri, neu wobrau o'i phoced ei hun, hi yw'r cyntaf i gynnig cefnogaeth ac anogaeth, ac mae Angharad yn gwneud y cyfan oll gyda gwên ar ei hwyneb a llond trol o gariad. Yn syml iawn — ni fyddai'r clwb yn bodoli hebddi hi.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## GORFFENNAF 2025